Cyngor y Gweithlu Addysg
Education Workforce Council

MEWNWELEDIADAU DATA

www.ewc.wales
@ewc_cga

Cyflenwi yng nghategorïau'r athro ysgol a'r gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol

CGA yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru. Rydym yn cofrestru athrawon a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach, ynghyd ag ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith a gweithwyr ieuenctid / cymorth ieuenctid cymwys. Mae'r holl ddata yn y crynodeb hwn yn deillio o Gofrestr Ymarferwyr Addysg CGA. Casglwyd y data a ddangosir ar 1 Mawrth 2019.

1.Cyflenwi yng nghategori'r athro ysgol

1.1 Nifer yr athrawon cyflenwi

Cyflenwi yw prif gyflogaeth 4,759 o'r rhai sydd wedi'u cofrestru yng nghategori'r athro ysgol. Mae 3,325 o'r rhain wedi'u cofrestru yn y categori athro ysgol yn unig ac mae 1,434 wedi'u cofrestru mewn categorïau eraill hefyd. Mae gan 1,321 o gofrestreion eraill gofnod o gyflogaeth fel athrawon cyflenwi yn ogystal â'u prif gyflogaeth mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, sydd heb ei gynnwys yn y ffigurau cyflenwi isod.

	Nifer	%
Cyflenwi	4,759	13.4
Cyfanswm yng nghategori'r athro ysgol	35,545	100

1.2 Proffil oedran athrawon cyflenwi

Mae proffil oedran athrawon cyflenwi yn wahanol i broffil oedran pob athro ysgol. Yn benodol, mae athrawon cyflenwi o dan 29 oed neu dros 50 oed yn fwy cyffredin, o gymharu â phob athro ysgol cofrestredig.

	Cyfanswm nifer yr athrawon cyflenwi sy'n gymwys i ymarfer yng nghategori'r athro ysgol		Pob athro ysgol	
	Nifer	%	Nifer	%
29 neu'n iau	1,011	21.2	5,827	16.4
30 i 39	926	19.5	10,555	29.7
40 i 49	993	20.9	10,336	29.1
50 i 59	1,006	21.1	6,612	18.6
60 neu'n hŷn	823	17.3	2,215	6.2
Cyfanswm	4,759	100	35,545	100



1.3 Rhyw athrawon cyflenwi

Yn yr un modd â phob athro ysgol, mae dros 75% o athrawon cyflenwi yn fenywaidd.

	Cyfanswm nifer yr athrawon cyflenwi sy'n gymwys i ymarfer yng nghategori'r athro ysgol		Pob athro ysgol	
	Nifer	%	Nifer	%
Benyw	3,646	76.6	26,833	75.5
Gwryw	1,113	23.4	8,712	24.5
Cyfanswm	4,759	100	35,545	100

1.4 Blynyddoedd ers i athrawon cyflenwi ennill SAC

Mae'r rhan fwyaf (54.1%) o athrawon cyflenwi naill ai wedi ennill SAC lai na 6 blynedd yn ôl neu dros 26 blynedd yn ôl, sy'n wahanol i broffil pob athro ysgol, sydd wedi'i ddosbarthu'n fwy cytbwys. Mae 37.1% o bob athro ysgol yn dod o fewn y categorïau cyfunol hyn. Mae 6.6% o athrawon cyflenwi yn athrawon newydd gymhwyso (ANG).

	Cyfanswm nifer yr athrawon cyflenwi sy'n gymwys i ymarfer yng nghategori'r athro ysgol		Pob athro ysgol	
	Nifer	%	Nifer	%
0 i 5	1,343	28.2	6,942	19.5
6 i 10	572	12.3	5,637	15.9
11 i 15	508	12.0	6,178	17.4
16 i 20	519	10.7	5,574	15.7
21 i 25	1232	10.9	4,955	13.9
26+	585	25.9	6,259	17.6
Cyfanswm	4,759	100	35,545	100



1.5 Cyflogaeth athrawon cyflenwi

Caiff 3,292 o athrawon cyflenwi (69.2%) eu cyflogi drwy asiantaeth. O'r rhai a gyflogir drwy asiantaeth, y tri chyflogwr mwyaf poblogaidd yw New Directions (40.2%), Apollo Teaching Services (7.8%) a Bay Resourcing (5.6%). Caiff 1,359 o athrawon cyflenwi (28.6%) eu cyflogi drwy awdurdod lleol. O'r ffigur hwn, mae 15.5% yn cael eu cyflogi gan Bowys, 12.3% gan Ynys Môn ac 8.5% gan Sir Gaerfyrddin.

Mae cofrestreion cyflenwi yng nghategori'r athro ysgol yn cael eu cyfrifo unwaith yn unig, ni waeth faint o gyflogwyr y byddant yn gwneud gwaith cyflenwi iddynt. Os bydd cofrestreion yn gweithio i fwy nag un cyflogwr, y cofnod cyflenwi cyntaf a ddelir sy'n cael ei ddefnyddio. O ganlyniad, mae rhai cofrestreion yn cael eu cyflogi ar sail cyflenwi gydag asiantaeth a chydag awdurdod lleol. Mae gan 280 o gofrestreion sydd â chofnod cyflenwi mewn awdurdod lleol fel eu prif gyflogaeth gofnod cyflenwi arall mewn asiantaeth hefyd. Mae gan 121 o gofrestreion sydd â chofnod cyflenwi mewn asiantaeth fel eu prif gyflogaeth gofnod cyflenwi arall mewn awdurdod lleol hefyd.

Prif gyflogaeth	Cyflogaeth yng nghategori'r athro ysgol		
	Nifer	% o'r is-gyfanswm	% cyffredinol
Is-gyfanswm cyflenwi	**4,759**	**100**	**13.4**
Trwy asiantaeth	3,292	69.2	9.3
Trwy awdurdod lleol	1,359	28.6	3.8
Digyswllt/arall	108	2.3	0.3
Is-gyfanswm mewn swydd	**26,066**	**100**	**73.4**
Ysgol a gynhelir*	25,974	99.6	73.1
Ysgol annibynnol	92	0.4	0.3
Is-gyfanswm eraill mewn swydd**	**554**	**100**	**1.6**
Is-gyfanswm eraill nad ydynt mewn swydd***	**4,166**	**100**	**11.7**
Cyfanswm	**35,545**		**100**

*Mae ysgol a gynhelir yn cynnwys cofrestreion sy'n addysgu mewn ysgol gynradd, ganol, uwchradd, feithrin, arbennig neu uned cyfeirio disgyblion mewn awdurdod lleol.
**Mae eraill mewn swydd yn cynnwys athrawon peripatetig ac athrawon ymgynghorol
***Mae eraill nad ydynt mewn swydd yn cynnwys athrawon wedi ymddeol, cofrestreion a gyflogir mewn rolau cymorth neu addysg bellach, a'r rhai sydd heb gofnod cyflogaeth

1.6 Hunaniaeth genedlaethol athrawon cyflenwi

	Cyfanswm nifer yr athrawon cyflenwi sy'n gymwys i ymarfer yng nghategori'r		Pob athro ysgol	
	Nifer	%	Nifer	%
Prydeinig	1,264	26.6	7,839	22.1
Seisnig	450	9.5	2,332	6.6
Gwyddelig	25	0.5	192	0.5
Albanaidd	19	0.4	104	0.3
Cymreig	2,708	56.9	22,049	62.0
Nid wyf am i'm hunaniaeth genedlaethol gael ei chofnodi	41	0.9	196	0.6
Arall/anhysbys	252	5.2	2,833	7.9
Cyfanswm	4,759	100	35,545	100

1.7 Gallu athrawon cyflenwi o ran y Gymraeg

Mae gan gategori'r athro ysgol ganran uwch o gofrestreion sydd wedi datgan eu bod yn rhugl neu'n weddol rugl yn yr iaith Gymraeg, gyda 33.6% yn datgan eu bod, o gymharu â 27.7% ar gyfer cyfanswm nifer yr athrawon cyflenwi.

Yn gallu siarad Cymraeg	Cyfanswm nifer yr athrawon cyflenwi sy'n gymwys i ymarfer yng nghategori'r athro ysgol		Pob athro ysgol	
	Nifer	%	Nifer	%
Ydynt	1,317	27.7	11,937	33.6
Nac ydynt	3,441	72.3	22,106	62.2
Anhysbys	1	0.0	1,502	4.2
Cyfanswm	4,759	100	35,545	100

Mae canran uwch o fewn categori'r athro ysgol yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg o gymharu â chyfanswm nifer yr athrawon cyflenwi, gyda 27.2% yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg o gymharu â 21.5%.

Yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg	Cyfanswm nifer yr athrawon cyflenwi sy'n gymwys i ymarfer yng nghategori'r athro ysgol		Pob athro ysgol	
	Nifer	%	Nifer	%
Ydynt	1,023	21.5	9,663	27.2
Nac ydynt	3,736	78.5	24,317	68.4
Anhysbys	0	0.0	1,565	4.4
Cyfanswm	4,759	100	35,545	100

% yr athrawon cyflenwi yn ôl gallu'r Gymraeg



% yr athrawon cyflenwi yn ôl y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg



Y cofrestrai sy'n datgan ei allu o ran y Gymraeg.

A ydych chi'n siaradwr Cymraeg? - atebont "Ydw" os oeddent yn ystyried eu bod yn rhugl neu'n weddol rugl yn y Gymraeg.

A ydych chi'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg? - atebont "Ydw" os ydynt yn darparu addysg neu hyfforddiant yn y Gymraeg, neu'n teimlo'n hyderus i wneud hynny.

1.8 Statws athrawon cyflenwi o ran Sefydlu

Mae Sefydlu statudol wedi bod yn ofyniad yng Nghymru er Medi 2003 ac mae'n berthnasol i bob athro ysgol a enillodd ei statws athro cymwysedig (SAC) ar ôl 1 Ebrill 2003. Mae statws sefydlu wedi'i seilio ar wybodaeth a dynnwyd o'r Gofrestr yn Rhagfyr 2019 i sicrhau bod y wybodaeth mor gyflawn â phosibl.

	Cyfanswm nifer yr athrawon cyflenwi sy'n gymwys i ymarfer yng nghategori'r athro ysgol		Pob athro ysgol	
	Nifer	%	Nifer	%
Llwyddo	1,774	37.3	17,701	49.8
Heb gwblhau eto	733	15.4	1,365	3.8
Estynnwyd y cyfnod Sefydlu	16	0.3	42	0.1
Wedi'u heithrio	2,236	47.0	16,437	46.2
Methu	0	0	0	0
Cyfanswm	4,759	100	35,545	100

1.9 Y cyfnod addysg yr hyfforddwyd athrawon cyflenwi ar ei gyfer mewn addysg gychwynnol athrawon

Mae dros hanner yr athrawon cyflenwi wedi cael hyfforddiant cynradd (52.1%). Yn achos 518 o gofrestreion cyflenwi, nid yw'n hysbys pa gyfnod yr hyfforddwyd hwy ar ei gyfer. O'r rhain, enillodd 500 ohonynt SAC dros 20 blynedd yn ôl, felly nid yw'r wybodaeth wedi ei chofnodi ar gronfa ddata CGA.

	Cyfanswm nifer yr athrawon cyflenwi sy'n gymwys i ymarfer yng nghategori'r athro ysgol		Pob athro ysgol	
	Nifer	%	Nifer	%
Cynradd	2,478	52.1	18,112	51.0
Uwchradd	1,763	37.0	15,793	44.4
Anhysbys	518	10.9	1,640	4.6
Cyfanswm	4,759	100	35,545	100

% yr athrawon cyflenwi



% pob athro ysgol



1.10 Lleoliad addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer athrawon cyflenwi

Cafodd dros hanner yr athrawon cyflenwi eu hyfforddi yng Nghymru (56.5%). Lloegr sy'n dod nesaf, gyda 38.3%.

	Cyfanswm nifer yr athrawon cyflenwi sy'n gymwys i ymarfer yng nghategori'r athro ysgol		Pob athro ysgol	
	Nifer	%	Nifer	%
AGA yng Nghymru	2,687	56.5	24,836	69.9
AGA yn Lloegr	1,821	38.3	9,907	27.9
Yr Alban	11	0.2	61	0.2
Gwledydd eraill yr UE	71	1.5	202	0.6
Arall	6	0.1	67	0.2
Anhysbys	163	3.4	472	1.3
Cyfanswm	4,759	100	35,545	100



2. Cyflenwi yng nghategori'r gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol

Casglwyd y data a ddangosir ar 1 Mawrth 2019 ac mae'n ymwneud â gweithwyr cymorth dysgu cofrestredig mewn ysgol. Mae 1,140 o weithwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi wedi'u cynnwys hefyd yn ffigurau'r athrawon cyflenwi, gan eu bod wedi'u cofrestru yn y ddau gategori, a chyflenwi yw eu prif gyflogaeth. Mae cyflenwi yn cyd-fynd â'r categori cofrestru, felly gall natur y gwaith amrywio ar gyfer y rhai sydd wedi'u cofrestru mewn categorïau lluosog.

2.1 Nifer y gweithwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi mewn ysgol

Cyflenwi yw prif gyflogaeth 7,648 o'r rhai sydd wedi'u cofrestru yng nghategori'r gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol, sef mwy na'r 4,759 sydd yng nghategori'r athro ysgol. O'r 7,648 o weithwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi mewn ysgol, mae 1,393 wedi'u cofrestru hefyd yng nghategori'r athro ysgol (18.2%). Mae gan 900 o gofrestreion eraill gofnod cyflogaeth cyflenwi yn ogystal â'u prif gyflogaeth mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, sydd heb ei gynnwys yn y ffigurau cyflenwi isod.

	Nifer	%
Cyflenwi	7,648	20.5
Cyfanswm yng nghategori'r gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol	37,325	100

2.2 Proffil oedran y gweithiwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi mewn ysgol

Mae proffil oedran gweithwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi mewn ysgol yn wahanol i bob gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol. Yn benodol, mae gweithwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi mewn ysgol yn 29 oed neu'n iau, yn fwy cyffredin. Mae 44.1% o weithwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi mewn ysgol yn 29 oed neu'n iau o gymharu â 27.9% ar gyfer pob gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol.

	Cyfanswm nifer y gweithwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi, sy'n gymwys i ymarfer yng nghat-		Pob gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol	
	Nifer	%	Nifer	%
29 neu'n iau	3,371	44.1	10,422	27.9
30 i 39	1,609	21.0	7,914	21.2
40 i 49	1,291	16.9	8,933	23.9
50 i 59	973	12.7	7,883	21.1
60 neu'n hŷn	404	5.3	2,173	5.8
Cyfanswm	7,648	100	37,325	100



2.3 Rhyw gweithwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi mewn ysgol

Yn yr un modd â chategori'r gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol yn ei gyfanrwydd, mae dros 80% o weithwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi mewn ysgol yn fenywaidd. Fodd bynnag, mae canran mwy o wrywod yn y categori cyflenwi, sef 18.1%, o gymharu â 12.9% yng nghategori'r gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol.

	Cyfanswm nifer y gweithwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi, sy'n gymwys i ymarfer yng		Pob gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol	
	Nifer	%	Nifer	%
Benyw	6,266	81.9	32,494	87.1
Gwryw	1,382	18.1	4,831	12.9
Cyfanswm	7,648	100	37,325	100



2.4 Cyflogaeth gweithwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi mewn ysgol

Caiff 6,843 o weithwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi mewn ysgol (89.5%) eu cyflogi trwy asiantaeth. O'r rheiny sy'n cael eu cyflogi trwy asiantaeth, y tri chyflogwr mwyaf poblogaidd yw New Directions (37.5%), Apollo Teaching Services (9.7%) a Teacher Active (5.6%). Caiff 746 o weithwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi mewn ysgol eu cyflogi trwy awdurdod lleol. O'r ffigur hwn, caiff 10.7% o weithwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi mewn ysgol, a gyflogir gan awdurdod lleol, eu cyflogi gan Bowys, 9.5% gan Sir Benfro ac 8.3% gan Sir y Fflint.

Mae cofrestreion cyflenwi yng nghategori'r gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol yn cael eu cyfrifo unwaith yn unig, ni waeth faint o gyflogwyr y byddant yn gwneud gwaith cyflenwi iddynt. Os bydd cofrestreion yn gweithio i fwy nag un cyflogwr, y cofnod cyflenwi cyntaf a ddelir sy'n cael ei ddefnyddio. O ganlyniad, mae rhai cofrestreion yn cael eu cyflogi ar sail cyflenwi gydag asiantaeth a chydag awdurdod lleol. Mae gan 120 o gofrestreion sydd â chofnod cyflenwi mewn awdurdod lleol fel eu prif gyflogaeth gofnod cyflenwi arall mewn asiantaeth hefyd. Mae gan 74 o gofrestreion sydd â chofnod cyflenwi mewn asiantaeth fel eu prif gyflogaeth gofnod cyflenwi arall mewn awdurdod lleol hefyd.

Prif gyflogaeth	Cyflogaeth yng nghategori'r gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol		
	Nifer	% yr is-gyfanswm	% yn gyffredinol
Is-gyfanswm cyflenwi	**7,648**	**100**	**20.5**
Trwy asiantaeth	6,843	89.5	18.3
Trwy awdurdod lleol	746	9.8	2.0
Digyswllt/arall	59	0.8	0.2
Is-gyfanswm mewn swydd	**21,140**	**100**	**56.6**
Ysgol a gynhelir*	21,117	99.9	56.6
Ysgol annibynnol	23	0.1	0.1
Is-gyfanswm eraill mewn swydd**	**1,283**	**100**	**3.4**
Is-gyfanswm eraill nad ydynt mewn swydd***	**7,254**	**100**	**19.4**
Cyfanswm	**37,325**		**100**

*Mae ysgol a gynhelir yn cynnwys cofrestreion sy'n cynorthwyo mewn ysgol gynradd, ganol, uwchradd, feithrin, arbennig neu uned cyfeirio disgyblion mewn awdurdod lleol.
**Mae eraill mewn swydd yn cynnwys tiwtoriaid cerddoriaeth a gweithwyr cymorth dysgu peripatetig eraill mewn ysgol
***Mae eraill nad ydynt mewn swydd yn cynnwys cofrestreion nas cyflogir yn rôl gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol, y rhai na chyflogir mewn add-ysg mwyach, a'r rhai sydd heb gofnod cyflogaeth

2.5 Gallu gweithwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi mewn ysgol o ran y Gymraeg

Oherwydd bod lefel uchel o wybodaeth anhysbys yn y maes hwn, ni chymharwyd â chategori'r gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol yn ei gyfanrwydd. Mae hyn oherwydd bod CGA wedi gweithio gyda chyflogwyr yn y gorffennol i gofrestru'u staff presennol "yn dorfol" i sefydlu'r Gofrestr ar gyfer pob grŵp. Pan sefydlwyd Cofrestr ar gyfer gweithwyr cymorth dysgu, bach iawn o ddata yr oedd ei angen ar CGA (ac nid oedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr iaith Gymraeg). Ers sefydlu'r Gofrestr, mae ymarferwyr wedi bod yn llenwi eu cofnodion ymhellach a bu'n ofynnol i unrhyw gofrestreion newydd ddarparu gwybodaeth lawn, gan gynnwys gwybodaeth am y Gymraeg. Mae'r Cyngor yn cynnal rhaglen waith i barhau i lenwi cofnodion y grwpiau newydd o gofrestreion a bydd yn cyhoeddi data mwy penodol wrth i gofnodion ddod yn fwy cyflawn.

Y gallu i siarad Cymraeg	Cyfanswm nifer y gweithwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi, sy'n gymwys i ymarfer yng	
	Nifer	%
Ydynt	1,256	16.4
Nac ydynt	5,368	70.2
Anhysbys	1,024	13.4
Cyfanswm	7,648	100



Y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg	Cyfanswm nifer y gweithwyr cymorth dysgu sy'n cyflenwi, sy'n gymwys i ymarfer yng nghategori'r GCD mewn ysgol	
	Nifer	%
Ydynt	885	11.6
Nac ydynt	5,614	73.4
Anhysbys	1,149	15.0
Cyfanswm	7,648	100



Y cofrestrai sy'n datgan ei allu o ran y Gymraeg.

A ydych chi'n siaradwr Cymraeg? - atebont "Ydw" os oeddent yn ystyried eu bod yn rhugl neu'n weddol rugl yn y Gymraeg.

A ydych chi'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg? - atebont "Ydw" os ydynt yn darparu addysg neu hyfforddiant yn y Gymraeg, neu'n teimlo'n hyderus i wneud hynny.

Nodiadau

Casglwyd y data yn y crynodeb hwn o Gofrestr Ymarferwyr Addysg CGA ar 1 Mawrth 2019. Fodd bynnag, caiff y wybodaeth am gyflogaeth ei thynnu o'r Gofrestr ym Mai 2019 yn dilyn y broses adnewyddu ffioedd i sicrhau bod y wybodaeth am gyflogaeth mor gyflawn â phosibl. Dangosir nifer y cofrestreion fel rhai gwirioneddol yn hytrach na chyfwerth ag amser llawn.

O ran cyflogaeth, pe bai, er enghraifft, gan gofrestrai yng nghategori'r athro ysgol gofnodion cyflogaeth lluosog, e.e. rôl athro ysgol mewn awdurdod lleol a rôl athro cyflenwi ar gyfer asiantaeth, byddai rôl yr athro ysgol mewn awdurdod lleol yn cael blaenoriaeth fel prif gyflogaeth ac, felly, ni fyddai'r cofrestrai'n cael ei gynnwys yn y ffigurau cyflenwi; nodwyd hyn yn yr adrannau perthnasol.

Ar gyfer rhai adrannau, cymharwyd yn erbyn categorïau'r athro ysgol a'r gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol yn eu cyfanrwydd. Mae ystadegau pellach ar gyfer y ddau gategori i'w gweld yng Nghrynodeb Ystadegau 2019, sydd ar gael ar www.cga.cymru. Nodwch fod niferoedd cyflenwi wedi'u cynnwys yng nghyfanswm niferoedd y categorïau hefyd. Mae ymarferwyr sydd wedi cofrestru mewn categorïau cofrestru lluosog yn cael eu cynnwys ym mhob adran berthnasol.

Efallai na fydd canrannau'n dod i gyfanswm o 100 oherwydd talgrynnu.

Cysylltu â ni

Ymholiadau'r cyfryngau:
E-bostiwch cyfryngau@cga.cymru neu ffoniwch 029 2046 0099

Ymholiadau eraill / adborth:
E-bostiwch ystadegau@cga.cymru neu ffoniwch 029 2046 0099